

2016 Rhif 264 (Cy. 97)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed 1 Mawrth 2016

Yn dod i rym 7 Mawrth 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2016 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 7 Mawrth 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau o ffyrdd ymadael tua’r

gogledd a thua'r de yr A483 wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Mawrth 2016

Richard Morgan

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.